

YMARFER 7 i'r Saesneg: Sylwadau

Daeth defnyddio tanwydd wedi'i wneud o olew llysiâu¹ yn hytrach nag o betrol² yn boblogaidd yn ddiweddar³. Mae 30m o gerbydau diesel ym Mhrydain a allai redeg yn fwy effeithiol⁴, heb achosi cymaint o niwed i'r amgylchedd⁵ trwy ddefnyddio biodiesel yn lle diesel petrol⁶.

Mae'r broses o wneud biodiesel yn hollol syml⁷ - yn wir gallai unrhyw un ei wneud dim ond iddo gael gwybod y cyfartaledd o fethanol sydd angen ei ychwanegu at olew llysiâu⁸ a gwybod hefyd sut i buro brasder sglodion ac olew llysiâu amhur⁹.

Un fantais fawr o ddefnyddio biodiesel yw'r pris¹⁰ - os ydych chi'n ei wneud eich hun (yn gyfreithlon wrth gwrs ac yn talu treth arno) mae'n anhygoel o rad¹¹ ond mae hyd yn oed biodiesel sy'n cael ei werthu gan gwmnïau cyfreithlon yn llawer rhatach na diesel petrol¹². Mae pobl sy'n gofidio am yr amgylchedd yn llawenhau bod rhagor o bobl yn defnyddio biodiesel am ei fod yn gwneud llai o niwed i'r amgylchedd. Mae'n creu 10% yn llai o garbon monocsid¹³.

Gwyddonydd o'r Almaen oedd Rudolph Diesel.¹⁴ Yn 1893 cyhoeddodd ymchwil yn disgrifio peiriant chwyldroadol lle byddai'r aer yn cael ei gywasgu gan bistonau i achosi gwres uchel.¹⁵ Dyngarwr mawr oedd Diesel a'i obaith mawr oedd y byddai ei beiriant chwyldroadol yn galluogi'r werin bobl i gystadlu yn erbyn y diwydiannau mawr oedd yn rheoli'r fasnach ynni.¹⁶ Yn anffodus, defnydd milwrol fu'r defnydd cyntaf pwysig o beiriant chwyldroadol Diesel.¹⁷ Roedd Hitler yn defnyddio peiriant diesel ar gyfer llongau tanfor yr Almaen yn ystod y rhyfel.¹⁸

[addasiad o erthygl *Y Faner Newydd* ar y we]

1. Daeth defnyddio tanwydd wedi'i wneud o olew llysiâu...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Using vegetable oil fuel*
2. *The use of fuels made from vegetable oil*
3. *Using vegetable oil as fuel*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The use of fuel derived from vegetable oil*
2. *The use of fuel made from vegetable oil*

SYLWADAU:

1. 'Defnyddio'. Cytuno â'r defnydd o'r enw *use* yn lle'r ferf (LI.1 a LI.2). Yn aml iawn defnyddir enw yn Saesneg i ddisgrifio proses neu weithred lle defnyddir berf yn Gymraeg e.e. 'economic development' – 'datblygu economaidd'. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cyweiriau ysgrifenedig neu lafar mwy ffurfiol. '

2. 'Tanwydd wedi'i wneud o olew llysiâu' sydd yn y gwreiddiol felly ni

ddylid hepgor 'made from'. Mae *derived from* (LI.1) neu *made from* (LI.2) yn gywir. Mae Afl.1 yn defnyddio *vegetable oil fuel* ac Afl.3 yn cynnig *using vegetable oil as fuel* ond nid oled llysiâu heb ei drin a roddir yn y tanc! Mae Afl.2 yn cynnig *the use of fuels* ond cyfeirio at un math arbennig o danwydd a wneir yma.

2. ...yn hytrach nag o betrol

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...instead of diesel petrol*
2. *...rather than petroleum*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...as an alternative to petrol*
2. *...instead of petrol*
3. *...rather than from petrol*

SYLWADAU:

1. Nid oes dim byd o'i le ar gyfieithu'n llythrennol a defnyddio *rather than* (LI.3) ond mae defnyddio *instead of* (LI.2) neu *as an alternative to* (LI.1) yn llifo'n dda yn Saesneg.
2. Problem terminoleg sydd yma. *Petroleum* (Afl.3) yw'r deunydd crai sy'n dod o'r ddaear cyn ei drin i gynhyrchu diesel neu betrol. 'Petrodiesel' sydd gan Afl.1 mewn golwg.

3. [Daeth]... yn boblogaidd yn ddiweddar.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...has recently gained in popularity.*
2. *...recently became popular.*
3. *Recently, it has become popular...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...has become popular recently.*

SYLW:

1. 'Daeth...yn boblogaidd' sydd yn y gwreiddiol felly nid *gained in popularity* (Afl.1) ond *has become popular* (LI.1). Gellid dadlau eu bod yn golygu fwy neu lai yr un peth, ond o ystyried mai datblygiad diweddar yw hwn, mae'n well cadw at yr olaf. *...recently became popular* sydd gan Afl.2. Er mai'r gorffennol cryno (daeth) yn hytrach na'r amser perffaith (wedi dod) sydd yn y gwreiddiol mae'r amser perffaith 'has become' yn fwy priodol yn Saesneg am ei fod yn cyfeirio at weithred sydd wedi ei chwblhau yn ddiweddar neu sydd â pherthynas â'r presennol. Byddai *recently* yn well ar ddiwedd y frawddeg. Mae Afl.3 yn troi'r frawddeg ar ei phen ac yn dechrau gyda *Recently, it has become popular...* Nid oes dim byd o'i le yn hynny ond fel rheol mae'n well peidio â newid trefn brawddeg oni bai fod y gystawen yn gwneud hynny'n angenrheidiol. Fel rheol bydd adferfau'n ymwneud ag amser yn mynd ar ôl y ferf. Byddai 'the use of fuel made from ... has become popular recently' yn well o ran arddull y Saesneg.

4. **Mae 30m o gerbydau diesel ym Mhrydain a allai redeg yn fwy effeithiol...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *There are 30m vehicles in Britain which could run more efficiently...*
2. *There are 30m diesel cars in the UK which, ...could be run more effectively*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *There are 30m diesel vehicles in Britain which could run more efficiently*
2. *There are 30m diesel vehicles in Britain which could operate more efficiently*
3. *Britain's 30 million diesel vehicles could run more efficiently*

SYLWADAU:

1. *efficiently* yw'r gair cywir yn y fan hon er mai '**effeithiol**' sydd yn Gymraeg, nid 'effeithlon'. Yn Saesneg mae gan y ddau air, 'effectively' ac 'efficiently' ystyr gwahanol. Mae 'efficiently' yn golygu 'gweithio'n effeithiol heb gostio gormod a heb ddefnyddio gormod o ymdrech neu adnoddau'. Nid yw'r gwahaniaeth ystyr mor glir yn Gymraeg, ond *efficiently* yw'r cyfieithiad cywir yn y fan hon. Ni fyddai neb yn sôn yn Saesneg am beiriant sy'n rhedeg *effectively*.

2 '**cerbydau diesel**' sydd yn y gwreiddiol ond mae Afl.1 wedi anghofio'r gair 'diesel'. Mae Afl.2 wedi defnyddio *cars* i gyfieithu '**cerbydau**' sydd ag ystyr ehangach.

3. '**ym Mhrydain**' sydd yn y gwreiddiol ond mae Afl.2 wedi defnyddio *UK*. Er ei fod yn golygu'r un peth â'r Deyrnas Unedig yn y fan hon, mae'n arfer da peidio â'i newid.

5. **...heb achosi cymaint o niwed i'r amgylchedd...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and more environmentally friendly*
2. *...and in a more environmentally-friendly way*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and with a lower environmental impact*
2. *...with less of an environmental impact*
3. *...without causing as much damage to the environment*

SYLWADAU:

1. Mae'r amrywiaeth o gyfieithiadau llwyddiannus yn tanlinellu'r pwynt nad oes un ffordd gywir o gyfieithu unrhyw beth!

2. Mae 'impact' yn air niwtral ond wedi ei gplysu â'r gair 'environmental' mae'r ystyr yn negyddol. Mae cynigion Ll.1 ac Ll.2 *with a lower environmental impact* neu *with less of an environmental impact* yn dda iawn. Mae'r ddau'n cyfleu ystyr y gwreiddiol yn berffaith ond mewn ymadrodd Saesneg digon naturiol. Mae Ll.3 yn gyfieithiad hollol dderbyniol er yn llythrennol. Mae gramadeg Afl.1 yn anghywir oherwydd mae angen cymal adferfol fel sydd yn Afl.2 ond mae'r ddau wedi crwydro ychydig yn

bell o'r gwreiddiol. Mae'r gwreiddiol yn sôn am leihau'r niwed i'r amgylchedd – hynny yw, mae niwed yn dal i gael ei wneud – ac mae troi'r negyddol yn rhywbeth cadarnhaol neu *amgylcheddol-gyfeillgar* yn newid y pwyslais yn ormodol.

6. ...trwy ddefnyddio biodiesel yn lle diesel petrol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...if ran on biodiesel rather than Petroleum diesel.*
2. *...when using biodiesel instead of petrol diesel.*
3. *...were they to use biodiesel instead of diesel petrol.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...by switching from petrodiesel to biodiesel.*
2. *...by using petrodiesel instead of biodiesel.*

SYLWADAU:

1. Mae LI.1 yn enghraifft dda o gyfieithu'n greadigol (*switching*) heb gollu dim o'r ystyr. Mae LI.2 yn hollol dderbyniol hefyd. Mae mynegiant Afl.1 ychydig yn garbwl. Dylid dweud 'if run' neu 'if they ran'. Unwaith eto, nid yw *diesel petrol* yn gywir (Afl.3). Mae defnydd Afl.3 o *were they to use* yn gwbl gywir ond mae'r arddull braidd yn rhy ffurfiol a hirwyntog.

2. '**trwy ddefnyddio**'. Yn y frawddeg hon mae '**trwy**' yn golygu dull neu bosiblwydd h.y. byddai'r cerbydau'n rhedeg yn fwy effeithlon pe baen nhw yn defnyddio diesel petrol. Mae Afl.2 yn defnyddio *when* i gyflwyno'r is-gymal sy'n newid yr ystyr.

7. Mae'r broses o wneud biodiesel yn hollol syml...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *The production of biodiesel is quite a simple process...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The process of making biodiesel is extremely simple...*
1. *The process of producing biodiesel is very simple...*

SYLW:

1. Mae'r rhan hon o'r frawddeg yn syml, ond bod Afl.1 wedi defnyddio *quite* i gyfieithu '**hollol**' lle byddai *extremely* neu *very* (LI.1 a LI.2) yn well.

8. ...yn wir gallai unrhyw un ei wneud dim ond iddo gael gwybod y cyfartaledd o fethanol sydd angen ei ychwanegu at olew llysiau...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...such that anyone could produce it. In fact, all that is required is to mix a known ratio of Methanol with clean vegetable oil,*
2. *...indeed, anyone could produce it if the knew the ratio of methanol needed to be added to vegetable oil*
3. *...indeed, anyone could do it should they happen to know the average*

amount of methanol which needs be added to vegetable oil

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Indeed, anyone could do it – all they would need to know is the proportion of methanol required to add to the vegetable oil.*
2. *...in fact anyone could do it as long as they know the proportion of methanol that must be added to vegetable oil*
3. *...in fact, anyone could make it, provided they know how much methanol to add to vegetable oil*
4. *...indeed, anyone could make it simply by finding out the proportion of methanol that needs to be added to vegetable oil*

SYLWADAU:

1. Mae'r rhan hon o'r frawddeg hon yn bur gymhleth, ac unwaith eto mae'n dangos yn eglur nad oes un ffordd gywir o gyfieithu unrhyw frawddeg! Mae'r cynigion i gyd yn cyfleu'r ystyr ond mae rhai wedi gwneud hynny'n fwy cryno na'i gilydd.

2. Un ymadrodd allweddol yw '**dim ond**' ac mae'r cynigion llwyddiannus yn ei gyfieithu mewn amryw o ffyrdd, a phob un yn foddhaol, *provided that, as long as, simply by* tra bo Afl.2 ac Afl.3 wedi ei hepgor yn llwyr. Pe bai Ll.4 am osgoi ailadrodd 'simple' (cymal 7 uchod)/*simply* byddai'n bosib defnyddio 'straightforward' yn lle'r cyntaf.

3. Mae Afl.1 wedi defnyddio *such that* i gyfieithu '**yn wir**' yn lle cynigion mwy addas fel *indeed* neu *in fact*. Ystyr '**cael gwybod**' wrth gwrs yw 'darganfod, cael gwybodaeth am' felly mae *know* neu *find out* yn gwneud y tro. Nid yw cynnig Afl.3, sef *should they happen to know* yn cyfleu'r ystyr cywir. '**Cael gwybod**' sydd yn y gwreiddiol, nid 'digwydd gwybod'. Mae cynnig Afl.1, *all that is required is to mix a known ratio* yn mynd yn bellach o'r gwreiddiol a braidd yn hirwyntog. Mae'n ychwanegu'r gair *clean* hefyd, heb fod angen.

4. Gall 'cyfartaledd' olygu 'average' ond yn y cyd-destun hwn, 'ratio' neu *proportion* yw'r dewis cywir, ond mae cynnig Ll.3, sef *how much* yn cyfleu'r ystyr yn iawn hefyd. Mae *average amount* gan Afl.3 yn anghywir.

5. Mae Ll.1 ac Afl.1 ill dau'n rhannu'r rhan hon o'r frawddeg ac nid oes dim o'i le yn hynny.

6. Mae '**sydd ei angen**' wedi ysgogi sawl cyfieithiad. Efallai mai cynnig Ll.4 yw'r symlaf *that needs to be added*. Mae Ll.3 wedi hepgor y gair '**angen**' yn y cyfieithiad ond mae eu cynnig *know how much methanol to add* yn cyfleu hynny. Mae cynnig Afl.2 *needed to be added* yn glogyrnaidd.

9. **...a gwybod hefyd sut i buro brasder sglodion ac olew llyisiau amhur.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and to be aware of how to refine chip fat and impure vegetable oil.*
2. *They would also need to know how to purify contaminated chip fat and vegetable oil.*
3. *...which can be derived from waste chip fats and cooking oils.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and how to refine chip fat and unrefined vegetable oil.*

2. ...as well as how to purify chip fat and impure vegetable oil.

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 ac Afl.2 wedi cymhlethu dechrau'r rhan olaf hon o'r frawddeg heb fod angen. Nid oes angen defnyddio *and to be aware of* neu *they would also need to know* gan fod *and how* yn ddigon.

2. Mae Afl.3 wedi mynd yn llawer rhy bell o'r gwreiddiol. Cymeraf mai 'olew/braster gwastraff' yw e ond nid yw hyn yn cael ei ddweud yn y gwreiddiol.

3. *Refine* (LI.1) yw'r gair gorau i gyfieithu 'puro' yn y cyd-destun hwn (cf. purfa olew – 'oil refinery'). I gyd-fynd â hyn, ymddengys mai ystyr 'amhur' ar ddiwedd y frawddeg yw 'unrefined'. (Nid yw 'puro' na 'refine' o ran hynny yn cyfleu gwir natur y broses oherwydd ei bod yn golygu creu cynnyrch newydd o olew, yn hytrach na chael gwared ag amhureddau). Y cyfieithiad gorau felly yw cynnig LI.1 *and how to refine chip fat and unrefined vegetable oil* er bod LI.2 yn dderbyniol hefyd.

10. Un fantais fawr o ddefnyddio biodiesel yw'r pris

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *A major advantage of using biodiesel is the price*
2. *A significant advantage of the use of biodiesel is the cost*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *One significant advantage of using biodiesel is the price*
2. *One big advantage of using biodiesel is the price*

SYLWADAU:

1. 'Un fantais' sydd yn y gwreiddiol felly mae angen *one* yn y cyfieithiad.

2. Yn yr un modd, nid oes rheswm dros ddefnyddio *cost* (Afl.2) yn lle *price*.

3. Mae amrywiaeth o ffyrdd o gyfieithu 'mawr' ond a dweud y gwir, mae *big* yn gwneud y tro'n iawn mewn erthygl boblogaidd fel hon, yn enwedig gan fod y gair 'advantage' yn eithaf hir. Mae saith sillaf yn *significant advantage* (Afl.2)!

11. ...os ydych chi'n ei wneud eich hun (yn gyfreithlon wrth gwrs ac yn talu treth arno) mae'n anhygoel o rad...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...if you make it yourself (lawfully of course and by paying the tax on it) it is incredibly inexpensive*
2. *...it can be incredibly cost effective to produce your own biodiesel (this should of course be done legally, with tax paid on the biofuel)*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...if you make it yourself (legally of course, and paying tax on it) it's extremely cheap*
2. *...it's amazingly cheap if you're making it yourself (legally of course and paying tax on it),*

SYLWADAU:

1. 'lawfully/legally'. Nid oes fawr o wahaniaeth ystyr rhwng 'legal' a 'lawful'-dywedir bod 'lawful' yn cyfeirio yn fwy cyffredinol at gyd-fynd â'r gyfraith (e.e. mewn ymadroddion fel 'lawful wedded husband') a bod 'legal' yn cyfeirio at ffurf y gyfraith, a'r ochr dechnegol. Mae *lawful* (Afl.1) yn taro'n chwithig yma er nad yw'n anghywir.

2. *by paying the tax on it*. '**yn talu treth arno**' sydd yn Gymraeg, felly nid *by paying the tax* (Afl.1) (mae hynny'n awgrymu mai dyna'r dull o wneud y biodiesel) ond *paying tax on it*. Nid oes angen y fannod bendant 'the'.

3. Mae Afl.2 yn disgyn i'r fagl o amlhau geiriau heb fod angen *this should of course be done legally, with tax paid on the biofuel*. Nid oes angen *this should...be done* ac mewn erthygl anffurfiol mae defnyddio'r goddefol heb fod angen yn gwneud y cymal yn rhy ffurfiol ac yn glogyrnaidd.

4. '**anhygoel o rad**'. Ll.2 sydd wedi llwyddo orau i gyfleu ystyr y gwreiddiol wrth ddefnyddio *amazingly cheap*. Nid yw cynnig Ll.1, *extremely cheap* er yn gywir, yn llwyr gyfleu'r ffaith bod y pris yn synnu rhywun. Mae Afl.1 wedi defnyddio *incredibly* sydd yn dda iawn, ond wedi cyplysu'r gair ag *inexpensive* sydd yn hollol gywir ond yn creu ymadrodd wyth sillaf! Ceir y gair '**rhatach**' yn nes ymlaen yn yr un frawddeg ac mae fel pe bai'r cynigion i gyd yn ceisio osgoi ailadrodd 'cheap'/'cheaper'. Mae'n wir nad yw'r Saesneg mor hoff â'r Gymraeg o ailadrodd yr un gair mewn brawddeg ond gan mai ffurfiau gwahanol ar yr un gair sydd yma, ni ddylai hynny fod yn broblem. Mae Afl.2 yn defnyddio *cost effective* sydd yn anaddas yn y cywair hwn. Mae Afl.2 hefyd yn defnyddio *can* yn y cymal *it can be incredibly cost effective* sydd yn rhoi awgrym o 'posibilrwydd' nas ceir yn y gwreiddiol.

12. ...ond mae hyd yn oed biodiesel sy'n cael ei werthu gan gwmnïau cyfreithlon yn llawer rhatach na diesel petrol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...but even biodiesel which is sold legally by companies is much cheaper than diesel petrol.*
2. *...and even biodiesel made by legitimate companies is much more economical to buy than petroleum diesel.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...but even biodiesel which is sold by legitimate companies is much cheaper than petrol diesel.*

SYLWADAU:

1. '**Ond**' sy'n cyflwyno'r cymal hwn ac mae ei gyfieithu fel *and* (Afl.2) yn newid ystyr y cymal.

2. '**sy'n cael ei werthu**' sydd yn y gwreiddiol, nid 'sy'n cael ei wneud' (Afl.2). Am nad oes y fath beth â rhangymeriad gorffennol (e.e. 'made', 'eaten', 'sold') yn y Gymraeg rhaid defnyddio ffurf ferfol oddefol. Ond nid oes angen defnyddio *which is sold* (Afl.1) yn Saesneg. Byddai 'biodiesel sold' yn ddigon.

3. '**cwmnïau cyfreithlon**'. Y cwmni sy'n 'gyfreithlon', nid y dull gwerthu, felly *legitimate* neu 'legal companies', nid *sold legally* (Afl.1).

4. **'diesel petrol'**. Fel y nodwyd o'r blaen 'petrodiesel' neu 'petroleum diesel' sy'n gywir yn Saesneg, nid *diesel petrol* (Afl.1).

5. **'llawer rhatach na'**. Wrth gyfieithu mae'n bwysig peidio ag amlhau geiriau'n ddiangen. *Much cheaper than* (LI.1) yw'r cyfieithiad symlaf a gorau. Mae *much more economical to buy* (Afl.2) yn ychwanegu geiriau diangen, ac fel *cost-effective* uchod, yn anaddas o ran cywair.

13. Mae pobl sy'n gofidio am yr amgylchedd yn llawenhau bod rhagor o bobl yn defnyddio biodiesel am ei fod yn gwneud llai o niwed i'r amgylchedd. Mae'n creu 10% yn llai o garbon monocsid.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Those who worry about the environment are rejoicing that more people are using biodiesel as it has less of an environmental impact. It creates 10% less carbon monoxide.*
2. *Environmentalists on the whole are also delighted that more people are using biodiesel, as it causes far less damage to the environment. Biodiesel produces 10% less Carbon Monoxide.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *People who are concerned about the environment welcome the fact that more people are using biodiesel as it causes less damage to the environment, producing 10% less carbon monoxide.*
2. *The environmentally conscious are delighted that more people are using biodiesel since it causes far less harm to the environment. It creates 10% less carbon monoxide.*

SYLWADAU:

1. **'pobl sy'n gofidio am yr amgylchedd'**. Rwyf innau'n unigolyn sy'n gofidio am yr amgylchedd ond ni fyddwn yn disgrifio fy hun fel *environmentalist* (Afl.2). Wrth i ymwybyddiaeth o faterion newid hinsawdd symud i'r brif ffrwd, datblygodd gwahaniaeth rhwng 'amgylcheddwyr', sef pobl sy'n cymryd rhan flaenllaw yn y dasg o amddiffyn yr amgylchedd, neu sy'n gweithio yn broffesiynol yn y maes, a'r gweddill ohonom sy'n gofidio. Felly mae *people who are concerned about the environment* (LI.1) yn gwneud y tro'n well, ac mae *The environmentally conscious* (LI.2) yn taro deuddeg hefyd. Cofiwch nad oes angen 'the' o flaen enw wrth siarad yn gyffredinol am gategori ond mae ei angen o flaen ansoddair. (Cymharer 'the sick' ond 'sick people'). Felly mae 'the' yn gywir o flaen 'environmentally conscious' ond nid yn yr ymadrodd 'the people'.

2. Nid oes dim byd yn y gwreiddiol yn cyfateb i *on the whole* (Afl.2). Dylid gochel rhag ychwanegu geiriau nad ydynt yn cyfateb i ddim byd yn y gwreiddiol oni bai bod eu hangen yn gystrawennol neu i egluro ystyr. Maen nhw'n gallu gwneud y cyfieithiad yn hirwyntog ac yn aml maent yn newid yr ystyr fel yn y fan hon. Yn yr un modd nid oes dim byd yn cyfateb i 'far' yn *far less damage* (Afl.2).

3. Gall 'llawenhau' olygu 'rejoice' neu 'overjoyed' (Afl.2 ac Afl.3) ond yn Gymraeg byddwn yn defnyddio 'llawenhau' yn amlach na pheidio i gyfleu rhywbeth mwy cymedrol fel *welcome the fact that* (LI.1) neu *be delighted that* a dyma'r ystyr yma.

4. Yn y gwreiddiol mae yna ddwy frawddeg ond nid oes dim byd o'i le mewn cyfuno'r brawddeg fel a wneir yn LI.1.

14. Gwyddonydd o'r Almaen oedd Rudolph Diesel.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Rudolph Diesel was a scientist from Germany.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Rudolph Diesel was a German scientist.*

SYLW:

1. Mae gan y Gymraeg ddwy ffordd o fynegi 'German', sef 'Almaenig' (yn cyfeirio at rywbeth sy'n ei hanfod yn perthyn i ddiwylliant a thraddodiadau'r Almaen e.e. Selsig Almaenig, gwisg Almaenig) ac Almaeneg (yn cyfeirio at yr iaith). Mae gan Saesneg ar y llaw arall un gair, 'German', sy'n gallu cyfeirio at yr iaith, at ddiwylliant a thraddodiadau, ac at bobl sy'n hanu o'r wlad. Am y rheswm hwn mae'n fwy naturiol dweud *German scientist* na *scientist from Germany*.

15. Yn 1893 cyhoeddodd ymchwil yn disgrifio peiriant chwyldroadol lle byddai'r aer yn cael ei gywasgu gan bistonau i achosi gwres uchel.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *In 1893 he published research that described a revolutionary machine whereby the air would be compressed by pistons to cause high heat.*
2. *In 1893 he published research describing a revolutionary machine that would compress air using pistons in order to produce a high heat.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *In 1893 he published research which described a revolutionary engine in which air was compressed by pistons to produce a high temperature.*
2. *In 1893, he published research which described a revolutionary engine that compressed air using pistons to generate heat.*

SYLWADAU:

1. Gall 'peiriant' olygu 'machine' neu 'engine' ac mae'n amlwg wrth ddarllen ymlaen mai 'engine' yw'r ystyr yma. Mae'n bwysig darllen a deall y testun i gyd cyn dechrau cyfieithu.

2. '**byddai'r aer yn cael ei gywasgu gan bistonau**' sydd yn y gwreiddiol felly byddai'n iawn defnyddio 'would be compressed' ond nid yw cynnig Ll.1 *in which air was compressed by pistons* yn gwneud gwahaniaeth i'r ystyr. Er mai ffurf oddefol a geir yn y gwreiddiol '**lle byddai'r aer yn cael ei gywasgu gan bistonau**' mae Ll.2 wedi defnyddio ffurf weithredol *that compressed air using pistons* sy'n berffaith dderbyniol.

3. *whereby the air would be compressed by pistons* (Afl.1). Ystyr 'whereby' yw 'trwy ffordd neu ddull neu broses benodol' ac mae'n taro'n chwithig yma oherwydd ei fod yn sôn am y peiriant. Byddai 'a revolutionary system... whereby' yn gywir ond byddai'n colli'r cyfeiriad at y peiriant. Byddai 'where' yn gwneud y tro'n iawn neu *in which*.

4. '**achosi gwres uchel**'. Mae Afl.1 yn cyfieithu hyn fel *cause high heat*. Mae 'intense heat' yn taro'r glust yn well na *high heat*. Mae'r gair 'cyd-leoliad', ('collocation' yn Saesneg) yn disgrifio'r ffaith bod rhai parau o eiriau

fel pe baent yn mynd gyda'i gilydd yn arferol. Nid ddywedir 'high heat' ond 'intense heat'. (Ar y llaw arall sonnir am *high temperature*.)

5. 'achosi'. Mae *produce* neu *generate* yn swnio'n fwy naturiol na *cause*.

16. Dyngarwr mawr oedd Diesel a'i obaith mawr oedd y byddai ei beiriant chwyldroadol yn galluogi'r werin bobl i gystadlu yn erbyn y diwydiannau mawr oedd yn rheoli'r fasnach ynni.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Diesel was a great philanthropist and his deepest hope was that the revolutionary machine would allow the common people to compete with the big companies that ruled the energy market.*
2. *Diesel was a philanthropist and his greatest wish was that his revolutionary machine would allow the common folk to compete against the large industries which ruled the energy market*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Diesel was a great humanitarian whose dearest hope was that his revolutionary engine would enable ordinary people to compete with the large industries controlling the energy trade.*
2. *Diesel was a great philanthropist and his greatest hope was that his revolutionary engine would enable common people to compete against the large industries which dominated the energy trade.*

SYLWADAU:

1. 'Dyngarwr mawr'. Gwnaiff *humanitarian* neu *philanthropist* y tro gan fod y ddau yn golygu'r un peth. Gan nad yw Saesneg mor hoff o ailadrodd yr un gair mewn brawddeg â'r Gymraeg mae'n dda amrywio'r cyfieithiad o'r ddau 'mawr'. Mae Afl.2 yn hepgor un ohonynt, ac nid yw hyn yn foddhaol. Mae Ll.2 wedi defnyddio *great* a *greatest* sydd yn hollol foddhaol ac mae *great/dearest* (Ll.1) yn gweithio'n dda hefyd. Nid yw *deepest hope* Afl.1 yn taro deuddeg – enghraifft arall o 'gydleoliad' annaturiol.

2. 'y werin'. Mae *ordinary people*, *common people* a *common folk* yn gweithio'n dda ond nid oes angen y fannod yn Saesneg. Byddai angen sawl sesiwn i egluro'n llawn y gwahaniaethau rhwng y defnydd o'r fannod bendant yn Gymraeg ac yn Saesneg – mae yna lawer – ond yn y fan hon digon dweud fod y Saesneg yn aml yn hepgor y fannod wrth gyfeirio at bethau mewn categori e.e. 'Gwrandawodd yr aelodau'n astud wrth i gadeirydd y pwyllgor gyflwyno'r adroddiad.' 'Members listened intently as the chair of the committee presented the report.'

3. 'galluogi'. Mae'n iawn cyfieithu 'galluogi' fel 'allow' (Afl.1 ac Afl.2) ond gwell defnyddio gair cryfach fel *enable* (Ll.1 a Ll.2) yma. Nid cael rhyddid i gystadlu yn unig maen nhw ond cael y modd ymarferol i wneud hynny.

4. 'diwydiannau'. Gwell defnyddio *industries* (Ll.1 a Ll.2) yn hytrach na *companies* (Afl.1).

5. 'rheoli'. Nid yw *ruled* (Afl.1 ac Afl.2) yn anghywir ond mae *controlled* (Ll.1) neu *dominated* (Ll.2) yn tanlinellu bod y diwydiannau hyn yn dal awenau'r pryniant a'r gwerthiant ac yn pennu dosbarthiad a phrisiau er mwyn atal cystadleuaeth.

17. **Yn anffodus, defnydd milwrol fu'r defnydd cyntaf pwysig o beiriant chwyldroadol Diesel.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Unfortunately, the first major use of Diesel's revolutionary machine was military.*
2. *Unfortunately, Diesel's invention was first put to significant use in a military setting.*
3. *Unfortunately, Diesel's revolutionary engine's first important use was that of the military variety.*
4. *Unhappily, the first important use made of Diesel's revolutionary engine was a military one.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Unfortunately, the first important use of Diesel's revolutionary engine was in a military context.*
2. *Unfortunately the first notable use of Diesel's revolutionary engine was for military purposes.*

SYLWADAU:

1. **'Yn anffodus'**. Mae Afl.4 yn cynnig *unhappily* er bod ystyr y gair 'anffodus' yn ymwneud yn fwy ag amgylchiadau na theimladau. (Mae'n dod o 'ffawd'/'anffawd').
2. **'y defnydd pwysig cyntaf'**. Mae 'major' neu 'significant', 'notable' neu 'important' yn gwneud y tro.
3. **'o beiriant chwyldroadol Diesel'**. Un ffordd sydd o fynegi meddiant yn Gymraeg sef cyfod y peth a feddiennir a'r meddiannwr (e.e. peiriant Diesel). Mae dwy ffordd yn Saesneg, sef, "s" – 'Diesel's engine' - ac 'of' – 'the important use...of Diesel's revolutionary engine'. Fel y dengys yr enghreifftiau, defnyddir "s" fel rheol mewn ymadroddion byr ac 'of' mewn ymadroddion hir a chyd-destunau mwy ffurfiol. Mae cynnig Afl.3 *Diesel's revolutionary engine's first important use* yn glogyrnaidd iawn.
4. **'defnydd milwrol... fu'r defnydd cyntaf pwysig'**. Mae'r Gymraeg yn hoff iawn o ailadrodd yr un gair neu ymadrodd mewn brawddeg ac mae'n arddull naturiol yn yr iaith. Ond yn Saesneg mae'n swnio'n lletchwith ac annaturiol. Mae pob un o'r cynigion wedi cydnabod hynny ac wedi ceisio goresgyn y broblem. Mae Afl.1 wedi hepgor y gair yn llwyr, ac mae *military* ar ei ben ei hun yn swnio'n chwithig yn Saesneg. Mae Afl.4 wedi defnyddio *a military one* sydd fymryn yn well. Mae cynnig Ll.1, *in a military context*, yn swnio'n dda er nad yw'n cadw'r syniad o 'ddefnydd' lle bo cynnig Ll.2 *for military purposes* yn gwneud hynny. Mae cynnig Afl.3 *that of the military variety* yn chwithig iawn.

18. **Roedd Hitler yn defnyddio peiriant diesel ar gyfer llongau tanfor yr Almaen yn ystod y rhyfel.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Hitler employed diesel engines in submarines during the war.*
2. *Hitler used a diesel machine for submarines in Germany during the war.*
3. *Hitler used the diesel machines for German submarines during the war.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Hitler used diesel engines in German submarines during the war.*
2. *...as Hitler used diesel engines for German submarines during the war.*

SYLWADAU:

1. **'peiriant diesel'** – er mai'r unigol a geir yn y gwreiddiol, mae'r unigol neu'r lluosog yn gwneud y tro yn y cyfieithiad. Unwaith eto, mae'n amlwg o'r cyd-destun mae *engine* yw'r cyfieithiad gywir.
2. **'ar gyfer'**. Byddai 'for' neu 'in' yn gwneud y tro yn y fan hon.
3. **'Llongau tanfor yr Almaen'**. Fel y gwelwyd uchod (**'gwyddonydd o'r Almaen'**) mae'n bosib dweud 'German submarines' yn Saesneg, ac mae *submarines in Germany* (Afl.2) yn anghywir, yn enwedig wrth feddwl nad yn yr Almaen buasai'r llongau tanfor hyn ond yn y môr mawr! Mae Afl.1 wedi hepgor y gair yn llwyr, ac er bod yr ystyr ymhlyg yn y frawddeg (go brin y byddai arweinydd yr Almaen ar y pryd wedi defnyddio'r peiriannau yn llongau tanfor unrhyw wlad arall!) mae'n well ei gynnwys.